# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Helyg Bychan**

**Ysgol Gymraeg Bro Helyg**
**Ystad Ddiwydiannol Rising Sun Blaenau**
**Abertyleri**
**NP13 3DQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

09/03/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Helyg Bychan wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ers mis Medi 2010. Mae'n gweithredu gofal dydd llawn o adeilad annibynnol ar safle Ysgol Gymraeg Bro Helyg ym Mryn-mawr, i hyd at 19 o blant rhwng dwy a phump oed. Mae ar agor am 39 wythnos y flwyddyn ac mae'n cynnig dwy sesiwn rhan-amser, ynghyd â chlwb brecwast a chlwb cinio petai eu hangen ar rieni. Y person cofrestredig a'r person â chyfrifoldeb ar gyfer y gwasanaeth yw Cheryl Hanney sy'n rhedeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth yn cynnig lleoedd Dechrau'n Deg ac yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Crynodeb

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r canlyniadau ar gyfer y plant yn dda. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a dysgu sy'n addas i'w hoedran ac yn hyrwyddo eu datblygiad. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau cadarn â'u gofalwyr, sy'n cynnig gofal ymatebol a magwrus er mwyn sicrhau y caiff eu hanghenion unigol eu cefnogi. Mae llawer o adnoddau ar gael i'r gwasanaeth. Mae trefniadau arwain a rheoli'r gwasanaeth yn dda.

### 2. Gwelliannau

Mae'r holl argymhellion a wnaed yn yr adroddiad arolygu blaenorol wedi'u cyflawni.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Ni wnaethom nodi unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. Gwnaethom argymhellion arfer da, sydd wedi'u crynhoi yn adran 5.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant yn cael eu hannog i wneud dewisiadau, maent yn hapus ac yn cael hwyl yn y gwasanaeth. Maent yn cael cyfleoedd a phrofiadau da i ddatblygu amrywiaeth eang o sgiliau er mwyn hybu eu datblygiad. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd, ac mae eu sgiliau cymdeithasol yn datblygu'n unol â'u hoedran a'u cam datblygu.

### Ein canfyddiadau

Mae gan y plant lais cryf yn y gwasanaeth. Cânt eu hannog i gael gafael ar yr adnoddau maent am chwarae â nhw yn annibynnol. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â'r gweithgareddau a'r ardaloedd sydd ar gael iddynt ac maent yn hyderus wrth ddewis o amrywiaeth eang o adnoddau i gyfoethogi eu chwarae ymhellach. Caiff hunanfynegiant y plant ei annog a gwelsom y plant yn paentio ac yn gwneud marciau ar ddarnau o bapur plaen, ac roeddent yn awyddus i'w dangos i ni. Mae'r plant yn hyderus wrth fynd at y staff am sgwrs neu i ofyn am gymorth. Caiff syniadau ac argymhellion y plant eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a chynnal y sesiwn.

Mae'r mwyafrif o'r plant yn setlo'n gyflym ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Maent yn hapus, yn ddiogel ac yn gyfforddus ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y gwasanaeth. Maent wedi datblygu cydberthnasau cryf â'r staff a darperir ar gyfer eu hanghenion unigol. Gwelsom blant a oedd yn ofidus am rywbeth yn mynd yn ôl i chwarae'n hapus ar ôl cael tawelwch meddwl gan y staff a'u cyfoedion. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â threfn arferol y sesiwn a gwnaeth pob un ohonynt eistedd ar y carped yn barod ar gyfer y gweithgaredd nesaf ar ôl gorffen tacluso.

Mae'r mwyafrif o'r plant yn chwarae'n dda gyda'i gilydd, ac yn dysgu i rannu a chydweithredu. Gwelsom ddau blentyn yn helpu ei gilydd i lenwi jwg yn yr ardal ddŵr gan wenu a chwerthin. Mae'r plant yn rhyngweithio'n addas yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Gwelsom y plant yn cael eu canmol a'u hannog yn gyson gan y staff wrth iddynt ddal ati i wneud gweithgaredd am gyfnod priodol o amser. Gwelsom blentyn yn cael ei annog i dynnu llun o gylch mawr a chylch bach.

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a dysgu priodol, yn ogystal â chyfleoedd i ymlacio a chael amser tawel yn ystod y sesiwn. Gwelsom rai o'r plant yn dewis defnyddio'r ardal 'Cwtch' gyfforddus lle gallent ymlacio oddi wrth brysurdeb y sesiwn. Mae'r plant yn mwynhau chwarae di-dor a arweinir gan blant yn ogystal â gweithgareddau a arweinir gan oedolion a gwelsom fod y plant yn gwahodd yr oedolion i ymuno yn eu chwarae'n naturiol. Mae gan y plant fynediad at amrywiaeth eang o adnoddau naturiol sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Mae annibyniaeth y plant yn datblygu yn y gwasanaeth, a chaiff yr adnoddau eu storio mewn modd agored fel y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol. Caiff y plant eu hannog i olchi eu dwylo'n annibynnol cyn amser byrbryd a gallant dacluso, gyda chymorth, ar ôl i weithgaredd ddod i ben.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae’r plant yn cael gofal gan staff brwdfrydig sydd wedi cymhwyso'n dda. Mae yna ddisgwyliadau cyson o ran ymddygiad a chaiff y rhyngweithio ei reoli'n dda. Mae systemau addas ar waith i fonitro cynnydd y plant.

### Ein canfyddiadau

Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel. Cânt eu hyfforddi'n dda ym maes datblygiad plant ac mae eu hyfforddiant gorfodol mewn meysydd megis diogelu, hylendid bwyd a chymorth cyntaf pediatrig yn gyfredol. Mae gwybodaeth y staff am weithdrefnau diogelu yn dda. Caiff damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi'n effeithlon. Mae'r plant yn datblygu dealltwriaeth o ffyrdd iach o fyw drwy gael eu hannog i olchi eu dwylo cyn amser byrbryd ac ar ôl defnyddio'r toiled. Mae'r plant yn cael byrbryd maethlon a chânt gynnig dŵr neu laeth i'w yfed. Mae'r staff yn eistedd gyda'r plant yn ystod amser byrbryd er mwyn hyrwyddo eu sgiliau cymdeithasol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau hunangymorth yn ystod amser byrbryd. Mae'r plant hefyd yn cael budd o gyfleoedd i frwsio eu dannedd yn ystod y sesiwn.

Mae'r staff yn trin y plant â pharch ac yn eu gwerthfawrogi fel unigolion. Maent yn fagwrus, yn defnyddio dulliau gofalu cyson ac yn darparu ffiniau realistig i'r plant eu dilyn. Mae'r holl staff yn gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth. Maent yn gweithredu fel modelau rôl da, ac yn annog y plant i fod yn garedig i'w gilydd. Er enghraifft, fe'u clywsom yn dweud “bydd yn ofalus” er mwyn ategu ymddygiad priodol. Mae'r staff yn mynd i lawr i lefel y plant ac yn rhoi tawelwch meddwl iddynt. Clywsom un aelod o'r staff yn rhoi sicrwydd i blentyn a ofynnodd am ei fam. Mae'r staff yn paratoi'r amgylchedd cyn i'r plant gyrraedd ac yn ystyried hoff bethau a chas bethau'r plant.

Mae'r staff yn ofalgar ac yn ymateb i anghenion unigol y plant. Maent yn frwdfrydig sy'n sicrhau bod chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn cael eu hybu. Caiff anghenion personol y plant sylw yn brydlon a chânt eu trin â pharch. Mae'r staff yn monitro ac yn asesu datblygiad y plant er mwyn cynllunio'n unigol ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn a chlywsom y staff yn eu canmol a'u hannog yn gyson, a roddodd hyder iddynt yn eu chwarae a'u dysgu. Mae'r holl staff yn awyddus i hybu datblygiad y plant. Mae system gweithwyr allweddol ar waith ac mae'r staff yn defnyddio adnoddau tracio datblygiad er mwyn cynllunio gweithgareddau priodol sy'n addas ar gyfer oedran a cham datblygu'r plant. Mae'r staff yn cwblhau gwaith cynllunio a gwerthuso'n effeithiol. Mae'r staff yn annog y plant i fod yn chwilfrydig ynglŷn â bywydau a chredoau gwahanol y plant drwy ddathlu digwyddiadau diwylliannol megis y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Dydd Gŵyl Dewi.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn ddeniadol iawn i blant. Caiff yr ardaloedd chwarae eu cynnal a'u cadw'n dda, ac mae'r adnoddau mewn cyflwr da iawn. Mae amrywiaeth eang o weithgareddau i gynnal diddordeb y plant a'u hysgogi, ac mae asesiadau risg effeithiol ar waith er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y plant.

### Ein canfyddiadau

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel ac na chaniateir unrhyw fynediad diawdurdod. Gofynnir i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Cynhelir cofrestrau presenoldeb. Caiff y drws ffrynt ei gadw ar glo a'i fonitro gan y staff. Cynhelir gwiriadau diogelwch o'r safle bob dydd ac mae amrywiaeth o asesiadau risg ar waith ar gyfer gweithgareddau a theithiau a gaiff eu diweddaru'n rheolaidd. Gwelsom y staff yn cwblhau gwiriad gweledol o ddiogelwch yr ardal awyr agored cyn gadael i'r plant fynd allan i chwarae ac roeddent yn mopio'r llawr gwlyb o amgylch yr ardal ddŵr yn rheolaidd. Caiff ymarferion tân eu cynnal a'u cofnodi'n briodol. Gwnaethom drafod yr angen i ychwanegu mwy o wybodaeth at y cofnodion ymarferion tân. Mae'r arweinwyr wedi cwblhau Adnodd Archwilio Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas ac yn darparu ardaloedd chwarae cynnes a chroesawgar i'r plant. Mae'r ardaloedd chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant gan eu bod yn cynnwys silffoedd isel, agored sy'n arddangos amrywiaeth eang o adnoddau sy'n addas i'w hoedran a'u cam datblygu. Mae ardaloedd dynodedig yn yr ystafell chwarae sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer chwarae egnïol a chwarae tawel. Mae toiledau a basnau llaw o faint addas i blant ar gael yn yr ystafell chwarae. Fodd bynnag, nid yw'r plant bob amser yn cael eu hannog i gau drws y ciwbicl er mwyn parchu eu hurddas. Mae cyfleusterau newid cewynnau ar gael hefyd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod rotâu glanhau ar waith ac mae'r rhain, ar y cyfan, yn sicrhau bod ardaloedd yn cael eu cadw'n lân. Caiff gwybodaeth berthnasol ei harddangos ar gyfer y rhieni ar hysbysfwrdd, gan gynnwys manylion yswiriant a lluniau o'r staff.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant fynediad at amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da ac sy'n addas o ran eu cam datblygu. Gwelsom fod y plant yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau'n annibynnol, gan gynnwys tŷ bach chwarae rôl ag adnoddau bywyd go iawn a lefelau amrywiol o gyfarpar gwneud marciau priodol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardal awyr agored yn addas ar gyfer y plant ac yn cwblhau gwiriadau gweledol dyddiol. Mae gan y gwasanaeth adnoddau amlddiwylliannol sydd ar gael yn hawdd i'r plant. Mae'r adnoddau'n cefnogi cwricwlwm y cyfnod sylfaen.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae trefniadau arwain a rheoli'r gwasanaeth yn dda. Cymerodd yr arweinwyr ran lawn yn y broses arolygu. Mae partneriaethau â'r rhieni yn dda ac mae'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer lles pennaf y plant a'u teuluoedd.

### Ein canfyddiadau

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth, ac maent yn ei rhannu'n effeithiol ag eraill. Er enghraifft, mae'r datganiad o ddiben yn rhoi darlun cywir a llawn gwybodaeth o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl hyfforddiant gorfodol yn gyfredol ac y caiff unrhyw hyfforddiant gloywi ei drefnu cyn dyddiad dod i ben yr hyfforddiant blaenorol. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith ond nid yw'r rhain wedi'u dyddio ac ni chânt eu hadolygu'n flynyddol. Roedd contractau'r plant y gwnaethom edrych arnynt yn gyflawn ac roedd cydsyniad angenrheidiol y rhieni'n amlwg.

Mae systemau priodol ar waith i hunanwerthuso'r gwasanaeth. Mae adroddiad blynyddol am ansawdd y gofal wedi cael ei lunio. Mae hwn yn cynnwys ffordd glir ymlaen i'r gwasanaeth o ran gwella. Mae'r adroddiad am ansawdd y gofal yn cynnwys adborth gan y rhieni a'r plant. Cynhelir cyfarfodydd tîm yn rheolaidd er mwyn hybu cydweithio. Mae polisi canmol a chwyno ar waith ac ymdrinnir â chwynion yn effeithiol ac yn brydlon.

Caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio'n dda a chaiff y staff eu defnyddio'n effeithiol. Mae'r staff yn gweithio'n gadarnhaol fel tîm ac yn cefnogi ei gilydd er mwyn sicrhau bod y sesiynau'n mynd rhagddynt yn ddidrafferth. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys tystiolaeth o ddulliau recriwtio a monitro effeithiol. Mae'r gwasanaeth yn rhan o sefydliad ambarél ac mae'n cydweithio ar fenter ‘Croesi’r Bont’ ar hyn o bryd er mwyn datblygu’r defnydd o'r Gymraeg ymhellach. Clywsom lawer iawn o Gymraeg yn cael ei siarad ymhlith y staff a'r plant.

Mae partneriaethau â'r rhieni yn gryf yn y gwasanaeth. Mae'r rhieni yn mynychu sesiwn ‘Rhieni a Phlant gyda'i Gilydd’ (PACT) yn rheolaidd lle cânt eu hannog i gefnogi datblygiad y gwasanaeth. Er enghraifft, nod y sesiwn PACT nesaf yw plannu blodau a hadau er mwyn datblygu ardal yr ardd. Hefyd, dywedodd yr arweinwyr wrthym fod rhai rhieni wedi gwirfoddoli i weithio ar ddatblygu ardal yr ardd pan fydd y tywydd yn cynhesu. Gwelsom un nain/taid yn dod â blodau ac offer garddio i mewn er mwyn paratoi ar gyfer y sesiwn. Mae'r rhieni'n ganmoliaethus iawn wrth drafod y gwasanaeth a dywedodd un rhiant wrthym pa mor hapus yr oedd gyda'r cylch a'r ffaith ei bod wedi helpu ei phlentyn i symud i'r ysgol a chanmolodd rhiant arall gefnogaeth y staff.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Argymhellwn fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol:

- annog annibyniaeth y plant yn ystod amser byrbryd;
- ychwanegu mwy o fanylion at gofnodion yr ymarferion tân;
- annog y plant i gau drws y toiled pan fyddant yn ei ddefnyddio er mwyn parchu eu hurddas;
- sicrhau bod polisïau yn cael eu dyddio a'u hadolygu'n flynyddol.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd dau arolygydd â'r gwasanaeth, yn ddirybudd. Fel rhan o'r arolygiad gwnaethom y canlynol:

- cynnal gwiriad gweledol o'r safle;
- arsylwi ar arferion gofal;
- rhyngweithio â'r plant;
- siarad â'r staff;
- siarad â'r rhieni;
- edrych ar amrywiaeth o ddogfennaeth;
- ystyried gwybodaeth oedd ar gael i AGC cyn yr arolygiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Person Cofrestredig** | **Cheryl Hanney** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Cheryl Hanney** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **19** |
| **Ystod oedran y plant** | **2-5 oed** |
| **Oriau agor** | **8:00am i 3:00pm (cynhelir clwb brecwast rhwng 8:00am a 9:00am ar gais rhieni)** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **10 Tachwedd 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **09/03/2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg'. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol: Dim.** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/08/2020

Nid oedd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio â statws agored.